Social Farms & Gardens
Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol

# Gweithgareddau Dydd Gŵyl Sant Teilo
# St Teilo's Day Activities

Social Farms & Gardens Cymru



# Gweithgareddau Dydd Gŵyl Sant Teilo
# St Teilo's Day Activities



## BLASU AFALAU

Oes gennych chi, neu unrhyw dyfwyr yn agos atoch chi, unrhyw afalau wedi'u storio y gallwch adael i bobl eu blasu a phleidleisio dros eu hoff un? Neu efallai y gallwch ofyn i bobl restru eu hoff amrywogaethau Cymreig neu gael gêm 'dyfalwch ai amrywogaeth Gymreig yw hon'? Gallech flasu afalau go iawn, sudd, gellyg neu seidr. Gallech gael gêm blasu dall a chyhoeddi enillydd.



## PIL HIRAF!

Afalau a phliciwr – ac asesiad risg a phecyn cymorth cyntaf, rhag ofn! Digwyddiad hwyliog a chystadleuol. Gallech gael rowndiau o hyn a chadw amseroedd pobl hefyd, dim ond i ychwanegu ychydig mwy o gystadleuaeth! Beth am gael sesiwn cyflwyno 'tlws afal' am yr hafalyn hiraf?



## MEDRAU PERLLAN

Oes gennych chi waith tocio a/neu impio i'w wneud? Cynhaliwch ddiwrnod arbenigol sy'n canolbwyntio ar y gweithgaredd hwn. Neu a oes gan rywun y medrau hyn yn eich grŵp – a allwch gynnig sesiwn i'ch cymuned? Neu rannwch wybodaeth am y medrau hyn ar Ddydd gŵyl Teilo?



## DYFALWCH Y NIFER

findiwch jâr fawr a rhowch ychydig o afalau / canghennau / siswrn tynnu / menig ynddi. Gallech wneud hyn er mwyn hwyl yn unig, neu ofyn am dâl mynediad a rhoi canran o'r arian a gesglir fel gwobr (50% ar gyfer y dyfaliad cywir, 50% i'ch grŵp?). Peidiwch ag anghofio cyfri beth rydych chi'n ei roi yn y jâr!

# Gweithgareddau Dydd Gŵyl Sant Teilo
# St Teilo's Day Activities



## CHWEDLAU TEILO

Gwahoddwch hanesydd lleol, neu berson lleol sydd â diddordeb, i ymchwilio a rhannu straeon am Sant Teilo, ei deithiau a'r chwedlau amdano. Gallech gysylltu hyn â lliwio dreigiau, ceirw neu berllannau i blant. Siaradwch am gysylltiadau Sant Teilo â Dewi Sant a'r Brenin Arthur, i arwain at...



## MYTHOLEG AFALAU

Pa straeon y gall pobl ddod â nhw a'u rhannu am afalau mewn mytholeg? Mae yna ddigon ohonyn nhw – Genesis, Ercwlff, Eira Wen, William Tell, Jonny Appleseed. Sut fyddwch chi'n rhannu'r rhain? Efallai eich bod chi'n adnabod storiwr lleol, neu efallai y gallech chi gael tân a dweud straeon o'i gwmpas. Unwaith eto, gallwch gysylltu hyn â lliwio i blant.



## CYSTADLEUAETH POBI AFALAU!

Hyrwyddwch her 'Bake-Off' (cystadleuaeth pobi) yn eich ardal. Beth fydd eich gwobr am y deisen afalau, y grymbl neu'r gacen sy'n blasu orau? Neu am y pobi mwyaf anarferol gydag afal. A all pob cystadleuydd ddweud stori am eu pobi – ei bwysigrwydd iddyn nhw, neu pam roedden nhw eisiau cystadlu?



## CYFFEITHIAU

Finegal afalau, unrhyw un? Syrypau, sudd, lledr ffrwythau, picls, tsitnis – a hyd yn oed saws pizza! Gallech gynnal hwn fel digwyddiad blasu dall, neu fel sesiwn cyffeithio gymunedol gyda'ch grŵp, neu wahodd cynhyrchwyr lleol i ddod i werthu eu nwyddau.

# GweithgareddauDydd Gŵyl Sant Teilo
# St Teilo's Day Activities



## YMGYRCH WIRFODDOLI

Defnyddiwch y diwrnod fel rheswm i ddangos eich perllan a'ch safle i bobl, dywedwch wrthynt sut rydych chi'n gofalu am eich coed drwy gydol y flwyddyn a pha help sydd ei angen arnoch. Sicrhewch fod llawer o wybodaeth yn barod i bobl fynd adref gyda nhw am yr holl dasgau blwyddyn gyfan hyn, a chofiwch gymryd eu manylion cyswllt. Hefyd, sicrhewch fod manylion cyswllt eich grŵp wedi'u hargraffu er mwyn iddynt allu cysylltu â chi.




## YMGYRCH DONIO

Gallwch ddefnyddio'r diwrnod i godi arian ar gyfer eich safle, trwy ofyn i bobl am ffi mynediad, neu i gymryd rhan yn y gweithgareddau. NEU gallech ofyn i bobl am wahanol fathau o afalau fel ffioedd mynediad. Efallai y byddwch yn defnyddio'r rhain mewn gweithgareddau, neu dim ond i arddangos y gwahanol fathau o afalau sydd ar gael yn lleol.



## HYRWYDDWCH YN EANG

Gwnewch gymaint ag y gallwch i gyfleu'r wybodaeth am eich digwyddiad i gynifer o aelodau o'ch cymuned ag sy'n bosibl: posteri mewn siopau, canolfannau cymunedol, meddygfeydd; anfonwch rywfaint o wybodaeth i'r papur newydd a'r radio lleol; defnyddiwch y cyfryngau cymdeithasol. Peidiwch ag anghofio defnyddio'r hashnodau: #StTeilosDay #DyddGŵylSantTeilo #CommunityOrchards #PerllannauCymunedol a thagio Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol – mae ein dolenni cyfryngau cymdeithasol ar ddiwedd y ddogfen hon.



## Y FLWYDDYN NESAF

Peidiwch ag anghofio cynllunio ar gyfer y flwyddyn nesaf. A allwch chi gynllunio i storio mwy o afalau ar ôl cynhaeaf yr hydref hwn? A oes mwy o waith cyffeithio y gallwch ei wneud ar gyfer Dydd Gŵyl Teilo nesaf? A allwch chi gysylltu ag unrhyw Berllannau Cymunedol eraill neu dyfwyr lleol dros y flwyddyn, gan gynllunio ar gyfer mis Chwefror nesaf?

# GweithgareddauDydd Gŵyl Sant Teilo
# St Teilo's Day Activities

Nodiadau ar gyfer eich diwrnod: